

## Beth ydy **Ymddiriedolaeth Touch?**

*Mae Stacey Koseoglu yn sôn am Ymddiriedolaeth Touch, ei waith a'i effaith ar fywydau pobl. Cafodd yr erthygl ei golygu yn wreiddiol gan Emma Louise Sorano*

Elusen wedi'i lleoli yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd ydy Ymddiriedolaeth Touch. Rydyn ni'n darparu rhaglen mudiad i bobl ag anghenion dwys a lluosog sy'n cynorthwyo gweithrediadau a datblygiadau beunyddiol, yn rhoi rhyddhad, iechyd a mynegiant corfforol. Mae hefyd yn cynyddu sgiliau symud, yn datblygu hunan hyder a mynegiant cymdeithasol.

*'Mae diffyg hyder yn eich corff eich hun yn gyfystyr â cholli hyder ynddoch chi'ch hun'*

*Simone de Beauvoir (1974)*

### **Taith Leila**

Fel arweinydd sesiynau gydag Ymddiriedolaeth Touch am bum mlynedd rwyf wedi cynorthwyo i hyfforddi aweinyddion sesiynau ac yn Hydref 2010 daeth Leila Bebb atom.

*'Person â Syndrom Downs sy'n gallu gwneud pethau yr un fath â phawb arall'* (Leila Bebb, 2012)

Mae Leila yn ferch ifanc 25 oed sydd â Syndrom Downs sy'n byw'n annibynnol yn Abertawe ac yn ei geiriau ei hun 'yn byw bywyd prysur iawn'.

Mae diddordebau Leila yn cynnwys dawns a drama ac mae'n cynorthwyo gyda'r dysgu yn yr 'Unusual Stage School', yn Nghaerdydd. Mae ganddyn nhw dri cynhyrchiad y flwyddyn a chafodd y cynhyrchiad diweddaraf ei ffilmio gan y BBC.

Mae Leila yn gweithio gyda chwmmi o'r enw 'Take This', cwmni dawns cynhwysol sy'n perfformio yng Ngŵyl Undod Hijinx eleni. Bu'n ddigon ffodus i gael ei dewis fel



*Leila: ar y dde*

prentis gan Wolfgang Stein sy'n arbenigo mewn symudiadau gweledol.

Y llynedd gwahoddwyd Leila i Rydychen i gynorthwyo Cecilia Mcfadden i baratoi 36 myfyriwr ar gyfer perfformiad 3 noson.

### **Dod i Ymddiriedolaeth Touch**

Aeth Dilys Price, sylfaenydd Ymddiriedolaeth Touch at Carol Brown yn Tan Dance i chwilio am fyfyrwr allai arwain sesiynau a chynorthwyo eraill. Enwyd Leila a dechreuodd ar ei hyfforddiant Ymddiriedolaeth Touch ym mis Tachwedd 2010.

Ar ôl mynd trwy cam un a dau yn hyderus, gweithio'n galed gyda digon o frwdfrydedd mae Leila erbyn hyn yn dod i Ymddiriedolaeth Touch unwaith yr wythnos ac mae'n cynorthwyo i arwain sesiynau. Mae'n aelod poblogaidd o'r tîm, yn dangos cydymdeimlad dwfn a chefnoogaeth sensitif.

Yr hyn sy'n wych ydy bod Leila erbyn hyn yn rhannu ei profiadau, er enghraifft, bu'n gweithio gyda Jen Angharad mewn dawns cymunedol a gofynnwyd iddi ddysgu symudiad. Dewisodd Leila ddysgu 'adlewyrchu' sydd yn rhywbeth yr ydym yn ei hyrwyddo

yn Ymddiriedolaeth Touch fel dull o ddatblygu hyder ein gwesteion. Roedd Leila wedi dangos hyn fel dull o 'ddatblygu personoliaethau'.

### **Anhunanoldeb**

Ac fel pe bai hyn ddim yn ddigon, mae Leila hefyd yn gyfranogwr gweithgar mewn gweithgareddau codi arian i'r holl elusennau y mae eisoes yn cymryd rhan ynddyn nhw. Mae'n defnyddio ei hegni creadigol ac yn creu cardiau, hunan bortreadau a phrintiadau y mae'n eu pecynnu a'u gwerthu, neu yn eu rhoi i'r elusennau eu hunain i'w gwerthu.

Erbyn y Nadolig 2012 mae Leila yn gobeithio cyhoeddi llyfr coginio gyda'i ryseitiau ei hun ynddo.

Mae bywyd Leila yn llawn breuddwydion, ac yn y pen draw hoffai gael ei chanolfan gelfyddydau lluosog ei hun ac mae'n anelu at hynny ar hyn o bryd:

**'GOBEITHIO Y DAW EI BREUDDWYDION YN WIR!'**

Gwefan: [www.touchtrust.co.uk](http://www.touchtrust.co.uk)

Facebook:

[facebook.com/TouchTrust](https://facebook.com/TouchTrust)

Trydar: @TouchTrust. Cyfeiriad:

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Bae Caerdydd CF10 5AL

Ffôn: 02920 635660